Mae hyfforddiant asbestos yn ofyniad cyfreithiol

Os ydych yn gweithio ar adeilad a godwyd neu a adnewyddwyd cyn y flwyddyn 2000, gallai asbestos fod yn bresennol. Bydd angen hyfforddiant ymwybyddiaeth arnoch er mwyn i chi wybod sut i osgoi'r peryglon.

Os ydych yn bwriadu tarfu ar asbestos, e.e. drwy ddrilio twll mewn caen weadog neu drwy dynnu teil nenfwd asbestos, yn ogystal â hyfforddiant ymwybyddiaeth, bydd angen hyfforddiant asbestos di-drwydded arnoch yn benodol i'r gwaith hwnnw.
Bydd hyn yn rhoi'r sgiliau i chi allu:

- Gosod a defnyddio mwgwd wyneb
- Defnyddio dulliau gwaith diogel
- Ymdrin â gwastraff asbestos
- Gwneud tasgau di-drwydded yn ddiogel – fel peintio astell inswleiddio asbestos heb ei ddifrodi, glanhau gosodiadau golau wedi'u gosod ar astell inswleiddio asbestos a glanhau cafnau ar do sment asbestos.

Ewch i www.ukata.org.uk neu ffoniwch 01246 824437
Mae sefydliadau eraill hefyd yn cynnig hyfforddiant.

Llinell Wybodaeth HSE: 0845 345 0055
www.hse.gov.uk/hiddenkiller

*Gellir codi hyd at 5 ceiniog bob munud am alwadau i rifau 0845 o linell dir BT. Gall cyfraddau galwadau o ffonau eraill neu ffonau symudol amrywio.
© Hawlfraint y Goron 2009 Rhan o'r ymgyrch asbestos. Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

50% recycled
When you have finished with this leaflet please recycle it

HSE
Health and Safety Executive

Rhybudd lladdwr cudd

Bob wythnos mae tua 20 o weithwyr yn marw o ganlyniad i'r lladdwr cudd hwn

Mae asbestos yn lladdwr cudd.
A gallai fod yn gudd mewn unrhyw adeilad a godwyd neu a adnewyddwyd cyn y flwyddyn 2000... gan gynnwys yr un lle rydych yn gweithio ar hyn o bryd. Yn y pecyn hwn ceir gwybodaeth am leihau'r perygl o asbestos a sticer i'w roi eich cist offer.

Bob wythnos mae tua 8 saer, 6 trydanwr a 4 plymwr yn marw o afiechydon yn gysylltiedig ag asbestos.

Mae miloedd o weithwyr yn gweithio gydag asbestos heb yn wybod iddynt. A ydych yn un ohonynt?

Osgowch weithio gydag asbestos os gallwch. Os nad ydych yn siwr a oes deunyddiau asbestos yn y man lle rydych yn gweithio, **stopiwch ac edrychwch**. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y bobl sydd â chyfrifoldeb dros adeiladau gweithle i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am leoliad a chyflwr asbestos cyn i chi ddechrau gweithio.

Ffoniwch 0845 345 0055 neu ewch i www.hse.gov.uk/hiddenkiller am ragor o wybodaeth.

HSE
Health and Safety Executive

















Mannau cuddio cyffredin i asbestos:

1. Teils nenfwd
2. Deunydd inswleiddio pibellau
3. Boeleri
4. Caenau a chwistrellwyd
5. Dalennau sment asbestos
6. Estyll o amgylch ffenestri, rheiddiaduron, lleoedd tân, colofnau a phileri adeiladu
7. Estyll bondo
8. Caenau gweadog
9. Y tu mewn i ddrysau tân
10. Gasgedi a seliau ar uniadau pibelli
11. Blychau ffiwsys a chyfarpar rheoli switshis trydanol

HSE

Health and Safety Executive

Peidiwch â dechrau gweithio:

- Os nad ydych yn siwr a oes deunyddiau asbestos yn y man lle rydych yn gweithio
- Os yw'r deunyddiau asbestos yn gaenau a chwistrellwyd, yn estyll neu'n ddeunydd inswleiddio a lagio ar bibelli a boeleri – dim ond contractwyr trwyddedig a ddylai weithio ar y rhain
- Os nad ydych wedi cael hyfforddiant i wneud gwaith di-drwydded gydag asbestos. Nid yw hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol yn ddigon ynddo'i hun

Dylech barhau i weithio ar yr amod:

- Bod y gwaith wedi cael ei gynllunio'n briodol a bod y rhagofalon cywir ar waith (e.e. bod gennych yr offer cywir)
- Bod y deunyddiau yn sment asbestos, caenau gweadog a rhai deunyddiau eraill nad oes angen trwydded ar eu cyfer (a restrir yn Asbestos Essentials)
- Eich bod wedi cael hyfforddiant mewn gwaith asbestos ac yn gwybod sut i weithio gydag ef yn ddiogel

Bob blwyddyn mae tua 4000 yn marw o asbestos. Mae hynny'n fwy na chaiff eu lladd ar y ffyrdd!







Os ydych yn gweithio gydag asbestos:

- Defnyddiwch offer llaw – nid offer pwer
- Sicrhewch fod deunyddiau yn llaith – heb fod yn rhy wlyb
- Gwisgwch fwgwd addas sy'n ffitio'n briodol (ee math tafladwy FFP3). Ni fydd mwgwd llwch cyffredin yn effeithiol
- Peidiwch ag ysmygu, bwyta nac yfed yn yr ardal waith
- Rhowch wastraff asbestos mewn dau fag, un o fewn y llall, a labelwch y bagiau yn briodol
- Glanhewch wrth fynd yn eich blaen – defnyddiwch sugnydd llwch arbennig (Dosbarth H), nid brws
- Ar ôl gweithio, sychwch eich oferôls â chadach llaith neu gwisgwch oferôls tafladwy (Math 5)
- Tynnwch eich oferôls bob amser cyn tynnu eich masg
- Peidiwch â mynd â'ch oferôls gartref i'w golchi
- Gwisgwch esgidiau heb gareiau neu orchuddion tafladwy dros eich esgidiau
- Rhowch eitemau dillad tafladwy mewn bagiau gwastraff asbestos a gwaredwch hwy yn y ffordd briodol
- Peidiwch â chario asbestos i mewn i'ch car neu eich cartref

Bydd y taflenni gwaith *Asbestos Essentials* yn dangos i chi sut i wneud ystod o dasgau di-drwydded yn ddiogel. Maent ar gael i'w llwytho i lawr am ddim yn www.hse.gov.uk/asbestos/essentials

HSE

912242 Asbestos DM (Welsh).indd 2 29/9/09 10:18:53